

# PWYLLGOR PENODIADAU

## Cofnodion y cyfarfod rhithiol a gynhaliwyd ar 17 Mehefin 2022

<b>PRESENNOL:</b>	Cynghorwyr Glyn Haynes, T Ll Hughes MBE, Carwyn Jones, G O Jones, Llinos Medi, Gary Pritchard, Margaret Murley Roberts, Alwen P Watkin a Robin Williams
<b>WRTH LAW:</b>	Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Corfforaethol (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro (ar gyfer eitem 5), Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid, Swyddog Adnoddau Dynol (NH), Swyddog Pwyllgor (MEH).
<b>YMDDIHEURIADAU:</b>	Cynghorydd Ieuan Williams
<b>HEFYD YN BRESENNOL:</b>	Dim

---

### 1 ETHOL CADEIRYDD

Etholwyd y Cynghorydd Llinos Medi yn Gadeirydd y Pwyllgor Penodiadau.

### 2 ETHOL IS-GADEIRYDD

Etholwyd y Cynghorydd Ieuan Williams yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Penodiadau.

### 3 DATGAN DIDDORDEB

Dim wedi'u derbyn.

### 4 COFNODION

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Mawrth, 2022 yn gywir.

### 5 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

#### PENDERFYNWYD:-

**“O dan Adran 100(A)(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12, Rhan 1 o Atodlen 12A i'r Ddeddf honno a'r Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm.”**

### 6 PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

Cyflwynwyd – adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro a'r Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid mewn perthynas â'r swydd wag Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

**PENDERFYNWYD** derbyn adroddiad ac argymhellion y Swyddog gydag un ychwanegiad o ran marchnata sef defnyddio'r safle [recriwtio Lleol.net](http://Lleol.net).

**7 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD:-**

**“O dan Adran 100(A)(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12, Rhan 1 o Atodlen 12A i'r Ddeddf honno a'r Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm.”**

**8 PENODIADAU STAFF**

**Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc**

Adroddodd y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid bod y swydd Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl ifanc wedi cael ei hysbysebu'n allanol rhwng 6ed Mai a 30ain Mai 2022, yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD** derbyn argymhellion y Swyddog o ran llunio rhestr fer a chefnogi'r broses recriwtio a amlinellir yn yr adroddiad.

**Y CYNGHORYDD LLINOS MEDI  
CADEIRYDD**